**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042 (CYLCHFAN PONT-Y-PŴL, TORFAEN I GYFFORDD LITTLE MILL, SIR FYNWY) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2025**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4042, neu gerllaw iddi, o Gylchfan Pont-y-pŵl , Torfaen, i Gyffordd Little Mill, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn fydd gwneud y canlynol dros dro gwahardd pob cerbyd (ac eithrio'r rheini sy'n cael eu defnyddio gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith) rhag mynd ar y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol prif gerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 15 metr i'r de-orllewin o ganolbwynt Cyffordd Little Mill â'r A472, gan gynnwys y gerbytffordd tua'r gogledd a'r gerbytffordd tua'r de yn ogystal â cherbytffyrdd cylchredol Cylchfan Court Farm a Chylchfan Mamheilad.

Y llwybr arall ar gyfer y darn o'r gefnffordd wedi ei gau uchod ar gyfer traffig trwodd sy'n dymuno teithio i'r gogledd ar yr A4042 o ochr ddeheuol y darn o'r gefnffordd wedi ei gau fydd mynd ar hyd yr A4042 tua'r de i Gyffordd 25a yr M4, Grove Park, yr M4 tua'r dwyrain i Gyffordd 24, Coldra, yr A449 tua'r gogledd i Raglan ac wedyn yr A40 tua'r gorllewin i'r Fenni. Y llwybr arall ar gyfer traffig nad yw'n draffig traffordd fydd parhau tua'r de ar hyd yr A4042 i Usk Way, ymuno â'r Ffordd Ddosbarthu Ddeheuol tua'r dwyrain i Gyfnewidfa Coldra ac wedyn dilyn y prif lwybr dargyfeiriol uchod.

Bydd traffig sy'n dymuno teithio i'r de ar hyd yr A4042 o ochr ogleddol y darn o'r gefnffordd wedi ei gau yn dilyn y llwybr arall uchod i'r gwrthwyneb. Sylwer: Bydd arwyddion yn cyfarwyddo traffig trwodd sydd am ddefnyddio'r A4042 i ymuno â'r llwybr arall yn Grove Park a'r Fenni. Bydd mynediad ar gyfer traffig lleol yn cael ei gynnal a bydd arwyddion ynghylch hyn ar hyd yr A4042 hyd at y mannau cau. Bydd traffig ar ffyrdd ymyl a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol yr effeithir arnynt gan y cau yn cael ei ddargyfeirio neu ei reoli drwy'r gwaith yn unol â gofynion yr Awdurdod Lleol.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad cyfyngiadau dros dro, y codir arwyddion priodol yn eu cylch, yn dod i rym am 20:00 o'r gloch ar 29 Medi 2025 ac yn weithredol yn ysbeidiol tan 07:00 o'r gloch ar 4 Hydref 2025 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**THE A4042 TRUNK ROAD (PONTYPOOL ROUNDABOUT, TORFAEN, TO LITTLE MILL JUNCTION, MONMOUTHSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2025**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4042 trunk road, from Pontypool Roundabout, Torfaen, to Little Mill Junction, Monmouthshire.

The effect of the Order will be to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works) from proceeding on the length of the A4042 trunk road that extends from its junction with the northern side of the Pontypool Roundabout main circulatory carriageway to a point 15 metres southwest of the centre point of the A472 Little Mill Junction, to include both northbound and southbound carriageways and to include the circulatory carriageways of Court Farm Roundabout and Mamhilad Roundabout.

The alternative route for the closure above for through traffic wishing to travel north on the A4042 from south of the closure will be via the A4042 southbound to M4 J25a Grove Park, M4 eastbound to J24 Coldra, A449 northbound to Raglan then the A40 westbound to Abergavenny. The alternative route for non-motorway traffic from Grove Park will be to continue south along A4042 to Usk Way, join A48 Southern Distributor Road eastbound to Coldra Interchange, then follow main diversion route as above.

Vice Versa for traffic wishing to travel south along the A4042 from north of the closure. Note: Through traffic wishing to use the A4042 will be advised by signage to join the alternative route at Grove Park and Abergavenny. Access for local traffic will be maintained and signed along the A4042 up to the points of closure. Traffic on the Local Authority maintained side roads affected by the closures will be diverted or managed through the works in accordance with the relevant Local Authority's requirements.

It is expected that the temporary prohibition, which will be signed accordingly, will come into force at 20:00 hours on 29 September 2025 and operate intermittently until 07:00 hours on 4 October 2025 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Transport
Welsh Government